



PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 23 Hydref 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Adams	Y Cyngorydd S Belzak
Y Cyngorydd R Bevan	Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd S Bradwick	Y Cyngorydd J Brencher
Y Cyngorydd G Caple	Y Cyngorydd A Chapman
Y Cyngorydd A Cox	Y Cyngorydd A Crimmings
Y Cyngorydd J Cullwick	Y Cyngorydd A Davies-Jones
Y Cyngorydd G Davies	Y Cyngorydd J Davies
Y Cyngorydd L De Vet	Y Cyngorydd M Diamond
Y Cyngorydd J Elliott	Y Cyngorydd S Evans
Y Cyngorydd M Forey	Y Cyngorydd H Fychan
Y Cyngorydd D Grehan	Y Cyngorydd E Griffiths
Y Cyngorydd M Griffiths	Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd P Howe	Y Cyngorydd G Hughes
Y Cyngorydd P Jarman	Y Cyngorydd G Jones
Councillor K Jones	Y Cyngorydd L Jones
Y Cyngorydd W Jones	Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd W Lewis	Y Cyngorydd C Leyshon
Y Cyngorydd A Morgan	Y Cyngorydd K Morgan
Y Cyngorydd S Morgans	Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd Owen-Jones	Y Cyngorydd S Pickering
Y Cyngorydd M Powell	Y Cyngorydd A Roberts
Y Cyngorydd J Rosser	Y Cyngorydd M Tegg
Y Cyngorydd G Thomas	Y Cyngorydd W Treeby
Y Cyngorydd L Walker	Y Cyngorydd E Webster
Y Cyngorydd J Williams	Y Cyngorydd T Williams
Y Cyngorydd R Yeo	

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

65 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol H. Boggis, A. Calvert, S. Evans, M. Fidler Jones, A. S. Fox, E. George, J. Harries, G. Holmes, J. James, W. Owen, S. Powell, S. Rees, S. Rees-Owen, G. Stacey, E. Stephens, R. K. Turner, M. Weaver, G. Williams, D. Williams a C. Willis.

66 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Eitem 6 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Yeo ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater – "Mae fy ngwraig yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, yn Ysbyty'r Tywysog Siarl."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Forey ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu – "Roeddwn i'n cynrychioli'r Aelodau Etholedig ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg am 3 blynedd nes i'm cyfnod gwasanaeth ddod i ben ym mis Ionawr 2016."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol K. Morgan ddatganiad o fuddiant personol: "Rwy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Jones ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Mae aelod o'r teulu'n gweithio i'r Bwrdd Iechyd."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Rwy'n Aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Davies ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Hyd at fis Mai 2018 roeddwn i wedi fy nghontractio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Adams ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Roedd fy ngwraig arfer gweithio yng ngwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac mae'n derbyn pensiwn y GIG."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Rwy'n gyn aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Mae fy mab yn Feddyg lau ac roedd yn gweithio yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn ystod y cyfnod adolygu perthnasol, er nad oedd e'n gweithio yn y gwasanaethau mamolaeth."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Davies ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Rwyf wedi fy nghofrestru â Banc Staff Nyrsys Cwm Taf."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Mae aelod o'r teulu'n gweithio i'r Bwrdd Iechyd."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Evans ddatganiad o fuddiant personol: "Rwy'n gweithio i'r GIG."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan ddatgan y buddiant

personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Cyflwynais ddeiseb ar-lein mewn perthynas â'r Bwrdd Iechyd."

Eitem 5 – Cwestiynau'r Aelodau

- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Belzak ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Rwy'n llywodraethwr mewn ysgol y cyfeirir ati yn un o'r cwestiynau."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol H. Fychan ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Rwy'n Aelod o Fwrdd Artis Community"
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Rwy'n Gyfarwyddwr ar yr YMCA "

Eitem 7 – Cynllun Corfforaethol y Cyngor – Blaenoriaethau Buddsoddi

- Cyfeiriodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman at ei gollyngiad a roddwyd gan y Pwyllgor Safonau ar y 23 Tachwedd 2018 gan ddarparu "gollyngiad i'r aelod siarad a phleidleisio ar bob mater trwy gydol proses Cyllideb 2019-20, a'i mabwysiadu, yn rhinwedd ei swydd yn Arweinydd yr Wrthblaid."

Eitem 8 – Gostyngiad Treth y Cyngor

- Cyhoeddodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol P. Howe y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu – "Mae'r polisi wedi effeithio arna i'n bersonol."

Eitem 10 B – Rhybudd o Gynnig ynglŷn â'r Pyllau Padlo.

- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Davies ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu – "Rwy'n Gadeirydd ac yn Ymddiriedolwr ar bwll padlo lleol."
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol E. Webster y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu – "Rwy'n wirfoddolwr mewn pwll padlo lleol."
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu – "Rwy'n aelod o bwll padlo lleol Abercynon."
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Forey y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu – "Mae fy mab-yng-nghyfraith yn gweithio yn adran hamdden y Cyngor."
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Pickering y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu – "Rwy'n aelod o bwll padlo Butchers."
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu – "Rwy'n aelod o Bwyllgor pwll padlo lleol."
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Cullwick y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu – "Rwy'n wirfoddolwr mewn grŵp pwll padlo lleol."

67 Cyhoeddiadau

- Talodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman deyrnged i gyn Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Macey a oedd wedi ymddiswyddo o'i swydd yn Gyngorydd dros ward Ynys-hir ar 21 Hydref. Gwnaeth y Cyngorydd Jarman sylwadau ar y gwaith rhagorol a wnaeth y Cyngorydd Macey ar ran ei drigolion. Dymunodd yr aelodau y gorau i'r cyn Gyngorydd Macey yn ei swydd newydd.
- Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i longyfarch Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Fox ar ran yr holl Aelodau ar enedigaeth ei ferch yn ddiweddar, a chroesawodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Diamond yn ôl i'r Siambur ar ôl salwch byr.
- Siaradodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones am llwyddiant diweddar a pharhaus The Cory Band, a ganmolwyd yn y Cynulliad fel 'Llysgenhadon ar ran y Fwrdeistref Sirol a Chymru gyfan' yn dilyn eu llwyddiant diweddar fel Pencampwyr Cenedlaethol Prydain Fawr 2019. Gofynnodd yr aelod i'r Cyngor gydnabod llwyddiant y band drwy ysgrifennu llythyr yn eu llongyfarch, ac roedd yr aelodau'n cefnogi hyn.
- Rhoddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser wybod i aelodau am y prosiect anthropoleg llwyddiannus roedd hi wedi bod ynghlwm ag ef mewn ysgolion lleol. Dywedodd yr aelod fod dau lyfr ar gael i'w prynu, wedi'u hysgrifennu, eu darlunio a'u cyhoeddi'n ddwyieithog.
- Manteisiodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher ar y cyfle i ddiolch i aelodau a swyddogion am y croeso a roesant i swyddogion o Uganda yn rhan o Bartneriaeth Ponty.
- Dywedodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Morgans fod Clwb Rotari y Rhondda yn goleuo adeiladau eiconig yn borffor ar gyfer Diwrnod Cenedlaethol Polio.
- Talodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Davies deyrnged i Rhian Morgan Ellis, pennaeth Ysgol Gyfun Cwm Rhondda, a enwyd yn Bennaeth Ysgol Uwchradd y Flwyddyn yng Ngwobrau Addysgu Cenedlaethol Pearson, sef "Oscars" y proffesiwn addysgu. Gwnaeth yr aelod sylwadau ar waith y Pennaeth a'i hymrwymiad i'r disgyblion a'r gymuned a gofynnodd am anfon 'llongyfarchiadau' y Cyngor at Ms. Ellis.

68 Cofnodion

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2019, yn rhai cywir.

69 Datganiadau

Datganiad Arweinydd y Fwrdeistref Sirol, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan – Newid yn yr Hinsawdd.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod i'r aelodau ei fod wedi cyhoeddi yng nghyfarfod y Cabinet ar 17 Hydref y byddai Grŵp Llywio'r Cabinet newydd yn cael ei greu er

mwyn ymateb i faterion Newid yn yr Hinsawdd ac i ddatblygu cynlluniau trawsnewidiol i sicrhau bod y Cyngor, fel sefydliad, yn Garbon Niwtral erbyn 2030. Byddai'r Grŵp Llywio hefyd yn helpu preswylwyr, busnesau a grwpiau cymunedol i gyfrannu at leihau eu hól troed carbon, yn ogystal â dod yn Niwtral Carbon cyn gynted â phosibl.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod y byddai'r Grŵp Llywio yn weithgor trawsbleidiol ac yn cynnwys dau grŵp cymunedol, sydd wedi bod yn arbennig o weithgar wrth herio a chefnogi ymateb y Cyngor i'r agenda Newid yn yr Hinsawdd. Byddai Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol Rhys Lewis, yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol, yn Cadeirio'r Grŵp ac yn Hyrwyddwr Newid yn yr Hinsawdd ar ran yr Aelodau. Caiff ei gefnogi gan y Prif Weithredwr, a fydd yn arwain y swyddogion.

Cafodd yr aelodau wybod bod yr Arweinydd wedi gofyn i'r Cyngorydd Lewis ddatblygu cynllun trawsnewidiol uchelgeisiol i gyrraedd targed heriol Carbon Niwtral 2030, ac y byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn diwedd y flwyddyn ariannol, er mwyn sicrhau bod gan y cynllun ddigon o adnoddau. Byddai'r cynllun hefyd yn cael ei ddwyn ymlaen i gyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr.

Aeth yr arweinydd yn ei flaen drwy roi trosolwg i'r aelodau o waith y Cyngor yn y maes yma dros y 5 i 10 mlynedd diwethaf, a'r cynnydd sylweddol o ran lleihau ein hól troed carbon, gan ragori ar dargedau ailgylchu gwastraff heriol, a sicrhau ein bod ni'n caffael cyflenwadau a gwasanaethau mewn modd cyfrifol o safbwynt cymdeithasol ac yn amgylcheddol. Mae hyn hefyd yn wir am fuddsoddiadau ein cronfa bensiynau.

Rhoddodd yr Arweinydd enghreifftiau a oedd yn cynnwys:

- Sicrhau bod 100% o'n cyflenwad ynni trydanol yn dod o ffynonellau ynni adnewyddadwy;
- Newid ein holl oleuadau stryd i unedau LED effeithlon, a diffodd goleuadau stryd mewn ardaloedd penodol;
- Buddsoddi mewn paneli solar, goleuadau LED, deunydd inswleiddio waliau a tho, boeleri nwy ynni effeithlon, ac unedau gwres a phŵer cyfun mewn llawer o ysgolion, canolfannau hamdden ac adeiladau'r cyngor.
- Gosod offer coginio trydanol ym mhob cegin newydd i elwa o'r trydan adnewyddadwy rydyn ni'n ei gaffael;
- Targedau ailgylchu – ym mis Awst eleni ailgylchodd y Cyngor 70% o'i wastraff, gan gyflawni targed 2025 eisoes;
- Buddsoddi yn y prosiect Bryniau Iach ar y cyd â Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Tân - gan arwain at fuddion o ran lleihau carbon, bioamrywiaeth ac ansawdd aer;
- Trwy gytundebau cynllunio gyda datblygwyr fferm wynt, mae cannoedd o hectarau o fawn a chynefinoedd cysylltiedig wedi'u targedu i'w hadfer, ac mae eu storfeydd carbon a dŵr wedi'u cynyddu;
- Buddsoddi mewn 20 o Gelloedd Tanwydd Hydrogen ar gyfer ein defnyddwyr ynni uchaf (cartrefi gofal, ysgolion mawr a chanolfannau hamdden) gyda'r uchelgais i wneud mwy - mae hyn yn cael effaith sylweddol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Sicrhau bod pob ysgol newydd ac adeiladau eraill y Cyngor yn cael eu hardystio fel "Da lawn" neu "Ardderchog" o dan BREEAM, gyda graddfeydd Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) o A;
- Trwy gynlluniau grant amrywiol gan y llywodraeth, rydyn ni wedi

galluogi llawer o breswylwyr ar incwm isel i wella'r deunydd inswleiddio gwres yn eu cartrefi eu hunain. Cafodd yr aelodau wybod bod y Cabinet wedi cytuno'n ddiweddar ar Strategaeth Tlodi Tanwydd Cartrefi Cynhesach newydd;

- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy fel, trydan dŵr Clydach, Fferm Wynt Vattenfall, gosod Boeler Nwyeiddio ym Mharc Coffa Ynysangharad, Parc Eco Bryn Pica.
- Derbyn dros £450,000 o incwm o ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd o adeiladau'r Cyngor.
- Lleihau hawliadau milltiroedd staff o dros filiwn o filltiroedd y flwyddyn trwy weithio mewn ffyrdd mwy doeth dros y 5 mlynedd diwethaf.

Parhaodd yr Arweinydd trwy nodi bod newidiadau o'r fath wedi lleihau ôl troed carbon y Cyngor o 37% (12,725 tonnau) dros y pum mlynedd diwethaf, ond ychwanegodd fod angen i'r Cyngor gyflymu'r gostyngiad carbon hwn yn sylweddol o hyd.

Cafodd yr aelodau wybod ymhellach am y cynigion yr oedd yr Arweinydd yn dymuno i'r Hyrwyddwr roi sylw iddynt ar ran yr Aelodau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Hwyluso'r broses o gynhyrchu ynni gwyrdd, fel ffermydd gwynt a solar, ac ynni dŵr, ac rwy'n disgwyl gweld y Cyngor yn buddsoddi ym Mhrosiect Adfer Gwres y Gwanwyn Ffynnon Taf dros y misoedd nesaf. Bydd hwn yn darparu ynni i gynhesu Ysgol Gynradd Ffynnon Taf a neuadd gymuned leol;
- Sicrhau bod buddsoddiad ym Mharc Eco Bryn Pica yn cael ei gyflymu, fel bod modd ailgylchu plastigion a gaiff eu casglu yn RhCT a'u hailddefnyddio i greu cynnyrch newydd, a hynny'n lleol;
- Cyflwyno rhaglen plannu coed fawr ledled y Fwrdeistref Sirol mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru. Bydd hyn hefyd yn rhan o ymrwymiad y Cyngor i wella'r systemau rheoli llifogydd ledled y Fwrdeistref Sirol, gan amddiffyn rhagor o gartrefi a busnesau o ganlyniad i'r newidiadau yn yr hinsawdd;
- Symud i ffwrdd o ddefnyddio cerbydau disel a phetrol yn y Cyngor, gan fanteisio ar dechnoleg newydd pan fydd hynny'n addas at y diben;
- Parhau ai gaffael y rhan helaeth o'n nwyddau a'n gwasanaethau, yn enwedig ein cyflenwadau bwyd, gan ddarparu'r lleol yn y Brifddinas-Ranbarth ac, yn ddefnyddol, yn y Fwrdeistref Sirol;
- Symleiddio'r cyfle i grwpiau cymunedol gael mynediad am ddim i leiniau tir gwag sy'n eiddo'r Cyngor, a hynny er mwyn eu datblygu'n rhandiroedd lleol, plannu perllannau ffrwythau neu goed, neu'u defnyddio at ddibenion amgylcheddol eraill;
- Ymgysylltu â Fforymau Ieuenctid y Cyngor wrth gynghori a chefnogi'r Grŵp Llywio wrth ei waith.

Hefyd rhoddodd yr Arweinydd wybod am gyfrifoldebau allweddol y Cyngor mewn perthynas â gweinyddu Cronfa Bensiwn yr Awdurdod Lleol yng Nghymru ar ran 71,000 o aelodau. Rhoddodd sylwadau ar yr ohebiaeth amrywiol a dderbyniwyd yn ddiweddar ynghylch safbwynt y Pwyllgor Pensiynau ar Newid yn yr Hinsawdd a sut mae hyn yn effeithio ar strategaeth buddsoddi'r Gronfa.

"Efallai eich bod chi eisoes yn effro i'r ffaith fod y Pwyllgor Pensiynau wedi penderfynu symud £163 miliwn o fuddsoddiadau i Gronfa Orlhain Ecwiti Carbon Isel. Mae hyn yn golygu bod y Gronfa eisoes yn ymwneud â llai o gwmnïau sy'n

allyrru carbon. Mae hyn yn ystyried allyriadau carbon cyfredol ac allyriadau posibl yn y dyfodol. Mae Datganiad Strategaeth Buddsoddi'r Gronfa hefyd yn cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu bwriadau'r gronfa mewn perthynas â risgiau newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys llunio egwyddorion dargyfeirio.

Yn amlwg, mae buddsoddi cyfrifol yn ymwneud â mwy na risgiau hinsawdd neu garbon yn unig. Mae ystyriaethau ESG ehangach yn cynnwys Cyfleoedd Ynni Glân, Llygredd, Gwastraff, Gweithlu, Diogelwch, Cadwyni Cyflenwi, Ilywodraethu corfforaethol, tryloywder treth, llygredd ac ati."

Diolchodd yr Arweinydd i'r Aelodau am eu hamynedd wrth iddo wneud ei ddatganiad ond pwysleisiodd unwaith eto bwysigrwydd darparu datganiad llawn ynglŷn â'r sefyllfa i'r Aelodau o ran yr Hinsawdd. Daeth a'i ddatganiad i ben drwy nodi, er y byddai adroddiad pellach yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Cyngor ym mis Ionawr ac yn rheolaidd wedi hynny, fel Cynghorwyr, mae angen creu rhagor o fomentwm ar gyfer newid yn y Cyngor ac ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol, a mater i ni yn unigol ac ar y cyd yw sicrhau ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth cyn gynted â phosibl.

D.S. - Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai copi o'r datganiad ar gael i'r cyhoedd yn dilyn y cyfarfod.

70 Cwestiynau gan y Cynghorwyr

1. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Jones i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol, (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis):

"Oes modd i'r Aelod o'r Cabinet roi trosolwg o gyflawniad theatrau RhCT ac amlinellu'r rhaglen o achlysuron sydd ar y gweill dros gyfnod y Nadolig."

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis:

Atgoffodd y Cynghorydd Lewis yr Aelodau fod Theatrau RhCT (Theatr y Colisëwm a Theatr y Parc a'r Dâr) yn un o ddim ond 3 theatr sy'n cael eu rhedeg gan Awdurdod Lleol sydd wedi derbyn statws Portffolio Celf Cymru gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Parhaodd yr Aelod o'r Cabinet trwy roi gwybod am y ffigurau presenoldeb mewn achlysuron rhwng Ebrill a Medi 2019, sef cyfanswm o 17,273, ac yn yr un cyfnod roedd 3,116 o unigolion wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol yn Theatrau RhCT ac yn rhan o raglen allgymorth y Cyngor. Dywedodd fod ffocws eleni ar ddull wedi'i dargedu'n fwy at ddarparu, fel darparu gweithdai i gynhalwyr ifainc, pobl ifainc sydd mewn perygl o fynd yn blant sy'n derbyn gofal, ac unigolion mwy abl a thalentog.

Darparodd manylion am ddefnyddwyr y gwasanaeth er budd yr Aelodau. Roedd 71.15% o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn dweud ei fod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau. Mae hyn wedi cynyddu ers yr un cyfnod yn 2018 lle nododd 66.67% fod y gwasanaethau wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau.

Daeth yr Aelod o'r Cabinet a'i ateb i ben trwy roi gwybod am yr

achlysuron yn y theatrau dros gyfnod y Nadolig.

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Jones:

Gofynnodd y Cyngorydd Jones i'r Aelod o'r Cabinet ymhelaethu ymhellach ar strategaeth gelf a diwylliannol ehangach y Cyngor?

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis:

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar yr 17 Hydref, ac aeth yn ei flaen i sôn wrth yr aelodau am y mentrau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth a'r adroddiad.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod y Cyngor wedi cynnal cyllid craidd y gwasanaeth a rhoddodd fanylion y buddsoddiad ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru hefyd. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am y gwaith adnewyddu sy'n cael ei wneud ar draws y theatrau.

Gwnaeth y Cyngorydd Lewis sylwadau ar y gwaith estynedig ehangach sydd wedi'i wneud gan y Gwasanaeth, er enghraifft gwaith partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, Gwasanaethau Cymdeithasol ac ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol, gan roi'r cyfleoedd i bob person ifanc brofi'r Celfyddydau, waeth beth fo'u cefndir.

Cyn gorffen, rhoddodd y Cyngorydd Lewis gyd-destun i'r strategaeth ehangach a'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â Chanolfan Gelf y Miwni ac Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen a Bwrdd prosiect yr YMCA. Gorffennodd yr Aelod Cabinet trwy gadarnhau bod gan y Cyngor lawer i'w ddathlu mewn perthynas â gwaith y gwasanaeth.

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"Wnaiff Arweinydd y Cyngor roi diweddariad o ran cyflawni Ymrwymadau'r Maniffesto a gafodd eu gwneud i breswylwyr yn 2017?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Rhoddodd y Cyngorydd Morgan drosolwg o'r ymrwymadau canlynol:

- Ymrwymiad i Ddiogelu cyllideb Addysg Ysgolion a chynyddu'r cyllid o o leiaf £1 miliwn bob blwyddyn, gan nodi bod Addysg yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor a dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi rhagori ar yr ymrwymiad yma ym mhob blwyddyn ariannol.
- Buddsoddi mewn cyfleusterau Gofal Ychwanegol ledled y Sir - Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau am y gwaith i gyflawni datblygiad Maesyffynnon, y datblygiad Gofal Ychwanegol yn y Graig ym Mhontypridd a'r datblygiad yn y Porth.
- Parhau i fuddsoddi mewn Meysydd Chwarae i Blant - rhoddodd y Cyngorydd Morgan fanylion am y buddsoddiad o £3.8 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon i wella 111 o feysydd chwarae er 2015. Ychwanegodd fod rhaglen gyfalaf eleni wedi neilltuo £600,000 i gyflawni gwelliannau i 14 o feysydd chwarae, ac roedd hyn yn dilyn buddsoddiadau o £1.06 miliwn o gyfanswm y cyllid yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf a £790,000 yn 2017/18.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni Metro De Cymru - cyfeiriodd yr Arweinydd at y gwaith sydd wedi'i wneud i baratoi ar

gyfer y gwelliannau enfawr y bydd y Metro yn eu cyflwyno i'r Fwrdeistref Sirol ar ôl cael ei wreiddio a siarad am y gwaith mewn perthynas â chynlluniau parcio a theithio.

- Buddsoddi yn ein cyfleusterau chwaraeon awyr agored a'n caeau 3G - nodwyd bod 13 o gaeau chwaraeon awyr agored wedi'u darparu, gyda datblygiad pellach wedi'i gynllunio ar gyfer Ysgol Gyfun Treorci ar ôl sicrhau cyllid yn gynharach yn y flwyddyn. Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle hefyd i roi gwybod am y datblygiadau o ran y cyfleusterau athletau ledled y Fwrdeistref Sirol.
- Buddsoddi mewn isadeiledd ledled y Sir - rhoddodd fanylion mewn perthynas â Ffordd Gyswllt ar Draws y Cwm Aberpennar; Deoli'r A4119, Ffordd Osgoi Llanharan ac Ailddatblygu Canolfan Dyffryn Taf / Llys Cadwyn

Parhaodd yr Arweinydd gan ddarparu diweddariad mewn perthynas â'r gwaith sydd wedi'i wneud i gefnogi Canol Trefi, cynllun prentisiaid a graddedigion llwyddiannus y Cyngor, a'r buddsoddiad sy'n cael ei ddwyn ymlaen trwy Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, y cynnig Gofal Plant estynedig, cyn gorffen gyda gwybodaeth mewn perthynas â chadw ein strydoedd a'n priffyrdd yn lân'.

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones:

Dywedodd y Cyngorydd ei fod yn falch o glywed am y datblygiadau gyda chynllun yr A4119, a gofynnodd a fyddai'r Arweinydd yn rhoi gwybodaeth bellach o ran camau nesaf cyflawni'r prosiect?

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Dywedodd y Cyngorydd Morgan fod y Cyngor yn parhau i bwysu ar Lywodraeth Cymru am gyllid mewn perthynas â'r cynllun a gwnaeth sylwadau ar y ddeialog barhaus mae ef a swyddogion y Cyngor yn ei chael gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r mater. Mewn perthynas â'r gwaith ei hun, dywedodd y Cyngorydd Morgan am y gwaith i gael gwared ar y gylchfan ym Mhencadlys Tân ac Achub De Cymru a rhoddodd esboniad pellach ynghylch sut y byddai cynllun y ffordd yn edrych yn dilyn gwaith o'r fath a'r buddion cysylltiedig.

3 Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol, D. R. Bevan:

"Wnaiff yr aelod o'r cabinet â chyfrifoldeb ddatganiad ar y sefyllfa bresennol o ran gwaith adnewyddu YMCA Pontypridd?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan:

Rhoddodd y Cyngorydd Bevan wybod i'r aelodau bod y Cyngor yn gweithio'n agos gyda chontractwyr yr YMCA (Knox & Wells) i sefydlu eu rhaglen waith a'r gobaith oedd y byddai'r gwaith yn cychwyn ym mis Ionawr 2020."

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell:

Cyfeiriodd y Cyngorydd Powell at y cyllid mae Llywodraeth Cymru a

Chyngor Celfyddydau Cymru wedi'i gyfrannu at adnewyddu'r YMCA yn 2015 a swm is y cyfeiriwyd ato ym mis Mehefin 2019 a holodd am yr anghysondebau yn y dyraniadau cyllid. Gofynnodd ymhellach faint yr oedd angen i'r Cyngor ei gyfrannu i ariannu'r datblygiad yn lle symiau'r grantiau arfaethedig a oedd wedi'u nodi'n wreiddiol.

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan:

Rhoddodd y Cyngorydd Bevan fanylion am y cais cynllunio a gyflwynwyd yn 2016 a oedd yn amlinellu'r datblygiad mawr i'r YMCA. Dywedodd wrth yr aelodau fod y cyllid wedi newid ers y dyddiad hwnnw oherwydd ail-broffilio partneriaid 'tribe'. Ychwanegodd fod y Cyngor a Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r cais cynllunio ym mis Chwefror 2018 ac wedi sicrhau ymrwymiad ariannol yr holl bartneriaid i gyflawni datblygu'r YMCA. ”

4 Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins:

“A wnewch chi ddatganiad os gwelwch yn dda am ddarparu Rhagnodau Cymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins:

Gwnaeth y Cyngorydd Hopkins sylw ar ba mor briodol yw'r cwestiwn gydag aelodau'r Bwrdd Iechyd yn bresennol, gan nodi bod hwn yn fater pwysig i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Iechyd. Parhaodd yr Aelod o'r Cabinet trwy roi gwybod bod dealltwriaeth a rennir a dull cydweithredol rhanbarthol o ragnodi cymdeithasol wedi'u cymeradwyo ar lefel strategol, sy'n cael eu cefnogi gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd fod grŵp amlasiantaeth, traws-sector, i ddatblygu'r model rhagnodi cymdeithasol a rôl gweithiwr cyswllt / cydlynedd cyswllt ymhellach wedi'i sefydlu sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r trydydd sector yn Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Parhaodd y Cyngorydd Hopkins trwy roi gwybod am fapio rolau yn lleol a'r llwybr atgyfeirio gyda'r mwyafriif o atgyfeiriadau trwy feddygfeydd teulu, ond dywedwyd wrth yr aelodau bod gwaith yn mynd rhagddo i annog atgyfeiriadau gan asiantaethau a lleoliadau eraill, gan gynnwys gofal eilaidd.

Gorffennodd yr Aelod o'r Cabinet ei ymateb trwy ddarparu trosolwg o'r sefyllfa bresennol ar draws y Fwrdeistref Sirol a datblygiad arfaethedig rhagnodi cymdeithasol trwy'r rhaglen drawsnewid sy'n cynnwys cynlluniau i ehangu'r gallu o ran rhagnodi cymdeithasol trwy gyflwyno 4 swydd (tair swydd barhaol ac un tymor penodol).

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r cais gan y Cyngor i wahodd Aelodau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i gyfarfod o'r Cyngor yn dilyn cyfarfod y Cyngor ym mis Mehefin, ac, ar ran y Cyngor croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau canlynol o'r Bwrdd Iechyd a Chadeirydd y Panel Trosolwg i'r cyfarfod:

- Yr Athro Marcus Longley – Cadeirydd y Bwrdd
- Dr Sharon Hopkins - Prif Weithredwr Dros Dro'r Bwrdd Iechyd
- Dr Greg Dix – Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion
- Dr Nick Lyons - Cyfarwyddwr Meddygol
- Mr Mick Giannasi - Cadeirydd Panel Trosolwg Annibynnol Gwasanaethau Mamolaeth Cwm Taf Morgannwg

Diolchodd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd i'r Cyngor am y gwahoddiad i'r cyfarfod, a chroesawodd y cyfle i drafod gwaith y Bwrdd o ran mynd i'r afael â'r methiannau difrifol sydd wedi'u nodi yn adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

Rhoddodd Cadeirydd Panel Trosolwg Annibynnol Gwasanaethau Mamolaeth Cwm Taf Morgannwg, Mr M Giannasi, gyflwyniad PowerPoint i'r Aelodau mewn perthynas â'r Adroddiad Chwarterol Cyntaf i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhoddodd y cyflwyniad drosolwg i'r Aelodau o:

- Cefndir ymyrraeth y Gweinidog ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg;
- Rôl a phwrpas y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth; a
- Y negeseuon a'r casgliadau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Cynnydd Chwarterol Cyntaf y Panel;

Dywedodd y cyflwyniad fod y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth yn cynnwys 79 o argymhellion, gydag asesiad y Bwrdd Iechyd yn dod i'r casgliad bod 24 (30%) o'r argymhellion yn cael eu cyflawni a bod 55 (70%) o'r argymhellion yn waith sydd ar y gweill. Mewn perthynas â'r cyflawniad yn erbyn argymhellion 'Diogelu', mae'r Panel wedi cael 'sicrwydd rhesymol' bod 8 allan o 11 o'r argymhellion wedi'u cyflawni a'u rhoi ar waith yn ymarferol. Gorffennodd Cadeirydd y Panel ei gyflwyniad drwy ddweud bod gan y Bwrdd Iechyd lawer o waith i'w wneud eto cyn cyflawni'r 78 argymhelliad yn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth sydd angen rhagor o waith ddatblygu a rhagor o adnoddau. Serch hynny, roedd tystiolaeth bod camau wedi digwydd i fynd i'r afael â'r argymhellion oedd yn feirniadol o ddiogelwch, ac roedd 'eginau' o welliannau mewn meysydd eraill.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r cynrychiolwyr am ddod i'r cyfarfod a gwnaeth sylwadau am y sgysiau anodd sydd eisoes wedi digwydd gyda'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r adolygiad, gan godi nifer o gwestiynau megis 'Sut y llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyrraedd y sefyllfa yma?', 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn gyffredinol yn darparu gwasanaeth diogel a chynaliadwy i drigolion y Fwrdeistref Sirol?' a 'Beth mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud i wneud pethau'n iawn?' - gan gyfeirio'n benodol at y broses gwynion sydd ar waith.

Diolchodd Cadeirydd y Bwrdd i'r Arweinydd am ei arsylwadau, a dywedodd fod y broses o ran trin cwynion wedi cael ei blaenoriaethu, er y byddai hi'n cymryd peth amser i sicrhau'r newidiadau cywir. Rhoddodd cynrychiolwyr o'r Bwrdd fanylion am y newidiadau sydd ar waith, gyda rhagor o gyfathrebu wyneb yn wyneb â chlinigwyr ar y rheng flaen, a'r goblygiadau y mae angen mynd i'r afael â nhw mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer y ffordd yma ymlaen. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Dros Dro at rai arferion enghreifftiol yn Ysbyty Tywysoges Cymru y mae'r Bwrdd yn edrych i'w mabwysiadu fel ffyrdd newydd o weithio ar draws y Bwrdd.

Cafodd y cwestiynau/sylwadau canlynol eu gofyn/gwneud gan yr Aelodau yn rhan o drafodaeth hir, a bu'r Bwrdd lechyd yn cynnig ymatebion:

- Llywodraethu a Chraffu - Cadarnhawyd adolygiad cyflawn mewn perthynas â'r ddau faes.
- Pryd ddechreuodd y problemau? - Dim tystiolaeth i nodi amser penodol, er mae'n debyg fod hynny wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd.
- Beth oedd y Bwrdd yn ei wneud i ddatrys y bwlio sy'n gyffredin yn y sefydliad, adfer hyder yn y tîm arwain ac ail-ystyried Rhaglen De Cymru? Mae'r Bwrdd wedi cydnabod y 'diwylliant bwlio' a nodwyd, ac mae'n bwrw ymlaen â rhaglen 'ymgysylltu a chynhwysiant', gyda rhaglen 'siarad gyda'n gilydd' ar gyfer cleifion a staff a rhaglen 'codi llais'. Cynnwys staff mewn datrysiadau a chynnal tryloywder a didwylledd gyda chyfarfodydd Pwyllgor y Bwrdd. Cyfeiriodd y cynrychiolwyr hefyd at y rhaglen 'Gwerthoedd ac Ymddygiad' a'r model gweithredu 'CTM' newydd sy'n canolbwyntio ar yr ardal. Mewn perthynas â Rhaglen De Cymru, (a oedd yn destun cwestiynau pellach gan yr Aelodau), dywedwyd wrth yr Aelodau fod y rhaglen wedi'i datblygu oherwydd problemau cynaliadwyedd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Dywedwyd wrthynt nad oedd hyn wedi newid, er bod Cadeirydd y Bwrdd wedi ychwanegu bod angen i'r Bwrdd edrych ar y rhaglen gyda 'phâr o lygaid ffres'. Clywodd yr Aelodau fod y gwaith o symud pediatreg cleifion mewnol wedi'i oedi nes bod y pryderon o ran damweiniau ac achosion brys wedi cael sylw.
- "Pick your dignity up off the Floor" - a oedd yr arfer o wthio gwelyau ychwanegol i ystafelloedd mamolaeth wedi dod i ben? - Roedd y cynrychiolwyr sicr bod yr arfer hwn wedi dod i ben, a rhoddon nhw sicrwydd ynghylch y gwiriadau a'r balansau a wnaed mewn perthynas â materion capasiti.
- Rhwystrau i lwyddiant - gwranddo ar staff, hyfforddi staff heb iddynt deimlo pwysau ychwanegol gan gynnwys ad-dalu staff am gynnal hyfforddiant y tu allan i oriau gwaith.
- Ymchwilio i Weinyddion TGCh yn rhan o'r ymchwiliad - Dywedodd Cadeirydd y panel nad oedd ymchwiliad o'r fath o reidrwydd yn rhan o Gylch Gorchwyl y Panel, gan ei fod yn edrych ar ddyfodol y Bwrdd. Ychwanegodd na fyddai'r ymchwiliad ond yn cael ei ddwyn ymlaen pe bai hynny'n angenrheidiol.
- Sicrwydd bod lefelau staffio yn ddiogel? Dywedwyd wrth yr Aelodau bod gwaith monitro lefelau staffio yn cael ei ddarparu bob dydd gyda thrafodaethau wythnosol gyda Llywodraeth Cymru. Ailadroddodd Cadeirydd y Panel fod hwn yn dal i fod yn waith ar y gweill, ond rhoddodd wybod am y farn broffesiynol dros dro gan fod clinigwyr yn Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau ansawdd.
- Problemau gydag uno 2 Weinyddwr TGCh yn dilyn uno Bwrdd lechyd Pen-y-bont ar Ogwr? Dywedodd Aelodau'r bwrdd na thynnwyd sylw at unrhyw adroddiadau ffurfiol o unrhyw niwed i gleifion, er bod problemau

gydag uno systemau a oedd wedi arwain at anawsterau gweinyddol gyda nodiadau coll neu ddyblygu apwyntiad.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r cynrychiolwyr am eu presenoldeb a'u hymatebion agored a gonest i'r sylwadau a wnaed. Ailadroddodd ei bryderon ei hun na chymerwyd unrhyw gamau disgyblu yn dilyn canlyniadau'r methiannau difrifol a nodwyd, a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at groesawu Aelodau'r Bwrdd mewn cyfarfod yn y dyfodol i dderbyn tystiolaeth a sicrwydd o welliant y gwasanaethau a drafodwyd.

Diolchodd Cadeirydd y Cyngor i gynrychiolwyr y Bwrdd am eu presenoldeb a chydabu hefyd ymddygiad y cyhoedd a oedd yn bresennol a thalodd deyrnged i'r teuluoedd oedd yn bresennol.

(**D.S.** Oherwydd cyfyngiadau amser, ni allai Aelodau'r Cyngor ofyn nifer o gwestiynau.)

72 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR 2019 - 2020

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, ddiweddariad i'r Aelodau ar raglen waith y Cyngor, gan ddweud y byddai angen darparu diweddariad llafar yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd mewn perthynas â'r setliad, a hynny o ganlyniad i amseriad posibl cyhoeddi'r Setliad Dros Dro. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd am eitemau ychwanegol posibl mewn perthynas ag adroddiad cydbwysedd Gwleidyddol yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr, ac, fel y cytunwyd yn ystod eitemau blaenorol ar yr agenda, adroddiad mewn perthynas â Newid yn yr Hinsawdd ym mis Ionawr a phresenoldeb cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg yn y cyfarfod Cyngor fis Chwefror.

Manteisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ar y cyfle i atgoffa'r Aelodau o'r cyfarfod Cyngor arbennig arfaethedig ar 29 Hydref i drafod safbwynt y Cyngor mewn perthynas â Brexit. Oherwydd yr ansicrwydd gyda thrafodaethau Llywodraeth y DU, dywedodd y byddai'r Aelodau'n cael eu hysbysu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl pe byddai angen bwrw ymlaen â'r cyfarfod yma.

73 RHEOL 8 - DULL GWEITHREDU'R CYNGOR

PENDERFYNWYD parhau â'r cyfarfod yn unol â Rheol 8 - Dull Gweithredu'r Cyngor, er mwyn trafod gweddill yr eitemau ar yr agenda a pharhau â busnes y Cyngor.

74 CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR - BLAENORIAETHAU BUDDSODDI

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol adroddiad y Cabinet, a oedd yn egluro'r sefyllfa o ran adnoddau untro mae modd manteisio arny'n nhw yn sgil adolygu cronfeydd wrth gefn y Cyngor sydd wedi'u clustnodi ar ôl cwblhau'r broses archwilio o ran Datganiad o Gyfrifon y Cyngor 2018/19. Roedd yr adroddiad hefyd yn gyfle i'r Cyngor fuddsoddi ymhellach yn ei feysydd Blaenoriaeth Buddsoddi, yn unol â'r â'r Cynllun Corfforaethol, 2016-2020.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod lefel a defnydd y cronfeydd wrth gefn wedi'u

clustnodi yn cael eu hadolygu'n gyson fel rhan o drefniadau rheoli ariannol cadarn y Cyngor a chyfeiriodd yr Aelodau at adran 4.3 o atodiad yr adroddiad, a oedd yn amlinellu i ba raddau y mae modd rhyddhau unrhyw symiau. Mae Adran 5.4 yr adroddiad hefyd yn nodi meysydd posibl ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol, gyda buddsoddiad o £5.800 miliwn y mae modd ei ariannu'n llawn trwy gyfuniad o ryddhau cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Rhyddhau o'r cronfeydd wrth gefn (unwaith ac am byth) o ganlyniad i'r adolygiad o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 4.1 i 4.3 yr adroddiad;
2. Bod yr arian a ryddhawyd yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r blaenoriaethau buddsoddi fel y manylir ym mharagraff 5 yr adroddiad, a fydd wedyn yn cael eu hymgorffori yn Rhaglen Gyfalaf tair blynedd y Cyngor a/neu'r Gyllideb Refeniw fel sy'n briodol.

75 Gostyngiad Treth y Cyngor

Trwy ei adroddiad rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol gyfle i'r Aelodau adolygu lefel y gostyngiad Treth y Cyngor ar gyfer dosbarthiadau rhagnodedig o anheddau yn y Fwrdeistref Sirol ac adolygu, diwygio neu ailddatgan y lefel a ragnodwyd.

Cyfeiriwyd yr aelodau at adran 3 o'r adroddiad a oedd yn amlinellu gofynion y Cyngor mewn perthynas â darpariaeth gostyngiad Treth y Cyngor, gyda'r Cyfarwyddwr yn dweud bod gan y Cyngor ddisgresiwn i ddyfarnu gostyngiad o hyd at 50% mewn perthynas â dau ddosbarth o anheddau rhagnodedig (a ddisgrifir fel arfer fel ail gartrefi a chartrefi gwyliau). Hynny yw, Dosbarth A a Dosbarth B. Cafodd yr Aelodau gyngor pellach am anheddau Dosbarth C a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor wedi penderfynu o'r blaen i beidio â chaniatáu gostyngiad mewn perthynas ag eiddo Dosbarth A, B ac C. .

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Cytuno i barhau ag unrhyw ostyngiad Treth y Cyngor mewn perthynas ag eiddo Dosbarth A, B ac C.

(D.S. Yn ystod trafodaethau mewn perthynas â'r eitem hon, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Howe fuddiant yn y mater y cyfeirir ato yng Nghofnod 66)

76 Penderfyniadau Brys o dan Swyddogaethau Gweithredol

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu 17.2(a), adroddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu am y penderfyniadau brys a ddygwyd ymlaen trwy benderfyniad dirprwyedig allweddol yn ystod y cyfnod Gorffennaf - Medi 2019 a **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth sy wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

77 Rhybudd o Gynnig

- A. Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol G. Hughes, G. Caple, L. M. Adams, D. R. Bevan, J. Bonetto, H Boggis, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De- Vet, J Elliott, S.Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S Pickering, S. Powell, S Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo:

"I nodi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd ar 10 Hydref, mae'r Awdurdod yma'n rhoi ei gefnogaeth i ymgyrch atal hunanladdiad #IPledge2Talk ac yn ymrwymo i weithio i gefnogi iechyd meddwl cadarnhaol mewn cymunedau ledled Rhondda Cynon Taf, mewn ysgolion, cymdogaethau a gweithleoedd lleol.

Fel Awdurdod Lleol, rydyn ni'n cydnabod ein rôl hanfodol wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r mater yma, fel y gwelwyd mewn Rhybudd o Gynnig blaenorol a oedd, nid yn unig yn ailddatgan cefnogaeth y Cyngor hwn i ymgyrch 'Beth am Siarad â Fi?' 2 Llywodraeth Cymru, ond hefyd yn ceisio ystyried ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ar gyfer iechyd meddwl o fewn yr Awdurdod ac ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol.

Dylai annog lles meddyliol fod yn flaenoriaeth ar draws holl feysydd cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys tai, cymunedau diogel a chynllunio. Yn ogystal, bydd yr addewid yma hefyd yn cwmpasu'r gefnogaeth y mae'r Cyngor yma'n ei darparu i Gymuned y Llwoedd Arfog, sydd, yn anffodus, yn gweld cyfraddau anghymesur o uchel o hunanladdiad ymhlith ein cyn-filwyr yn benodol.

Mae'r Aelodau'n galw ar ein Hyrwyddwr Iechyd Meddwl i barhau i godi proffil ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y mater yma."

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol 10.4.1 o Weithdrefn y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P Jarman, G Davies, E. Webster, J.Davies, J.Cullwick, J.Williams, A.Cox, H.Fychan, D.Grehan, E.Griffiths, K.Morgan, S.Rees Owen, M.Weaver, S.Evans, A. Chapman, L.Jones ac E.Stephens:

"I nodi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd ar 10 Hydref, mae'r Awdurdod yma'n rhoi ei gefnogaeth i ymgyrch atal hunanladdiad #IPledge2Talk ac yn ymrwymo i weithio i gefnogi iechyd meddwl cadarnhaol mewn cymunedau ledled Rhondda Cynon Taf, mewn ysgolion, cymdogaethau a gweithleoedd lleol, ac yn parhau i gefnogi'r Samaritans yn y gwaith yma.

Fel Awdurdod Lleol, rydyn ni'n cydnabod ein rôl hanfodol wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r mater yma, fel y gwelwyd mewn Rhybudd o Gynnig blaenorol a oedd, nid yn unig yn ailddatgan cefnogaeth y Cyngor hwn i ymgyrch 'Beth am Siarad â Fi?' 2 Llywodraeth Cymru, ond hefyd yn ceisio ystyried ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ar gyfer iechyd meddwl o fewn yr Awdurdod ac ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol.

Dylai annog lles meddyliol fod yn flaenoriaeth ar draws holl feysydd

cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys tai, cymunedau diogel a chynllunio. Yn ogystal, bydd yr addewid yma hefyd yn cwmpasu'r gefnogaeth y mae'r Cyngor yma'n ei darparu i Gymuned y Lluedd Arfog, sydd, yn anffodus, yn gweld cyfraddau anghymesur o uchel o hunanladdiad ymhlith ein cyn-filwyr yn benodol.

Mae'r Aelodau'n galw ar ein Hyrwyddwr Iechyd Meddwl i barhau i godi proffil ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y mater yma. Bod y cynnig hwn yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles er mwyn craffu ar yr hyn a wnaed gan yr Hyrwyddwr Iechyd Meddwl yn dilyn cynnig tebyg a gafodd ei gyfeirio ato gan y Cyngor Llawn ym mis Hydref 2018."

Yn dilyn trafodaeth ar y mater yma, cymerwyd y bleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** peidio â'i mabwysiadu.

Yn dilyn trafodaethau pellach ar y cynnig gwreiddiol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor 12.7 cynigiodd y cynigydd newid i'r Cynnig, i gynnwys y geiriad " *ac mae'n parhau i gefnogi'r holl asiantaethau cymorth*" ar ddiwedd y paragraff cyntaf.

Dyma'r Cynnig wedi'i ddiwygio:

"I nodi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd ar 10 Hydref, mae'r Awdurdod yma'n rhoi ei gefnogaeth i ymgyrch atal hunanladdiad #IPledge2Talk ac yn ymrwmo i weithio i gefnogi iechyd meddwl cadarnhaol mewn cymunedau ledled Rhondda Cynon Taf, mewn ysgolion, cymdogaethau a gweithleoedd lleol, ac mae'n parhau i gefnogi'r holl asiantaethau cymorth.

Fel Awdurdod Lleol, rydyn ni'n cydnabod ein rôl hanfodol wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r mater yma, fel y gwelwyd mewn Rhybudd o Gynnig blaenorol a oedd, nid yn unig yn ailddatgan cefnogaeth y Cyngor hwn i ymgyrch 'Beth am Siarad â Fi?' 2 Llywodraeth Cymru, ond hefyd yn ceisio ystyried ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ar gyfer iechyd meddwl o fewn yr Awdurdod ac ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol.

Dylai annog lles meddyliol fod yn flaenoriaeth ar draws holl feysydd cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys tai, cymunedau diogel a chynllunio. Yn ogystal, bydd yr addewid yma hefyd yn cwmpasu'r gefnogaeth y mae'r Cyngor yma'n ei darparu i Gymuned y Lluedd Arfog, sydd, yn anffodus, yn gweld cyfraddau anghymesur o uchel o hunanladdiad ymhlith ein cyn-filwyr yn benodol.

Mae'r Aelodau'n galw ar ein Hyrwyddwr Iechyd Meddwl i barhau i godi proffil ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y mater yma."

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig yma gyda'r newid dan sylw.

B .Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol E. Webster, J.Davies, J.Cullwick, P.Jarman, G.Davies J.Williams, A.Cox., H.Fychan, D.Grehan, E.Griffiths, K.Morgan, S.Rees Owen, M.Weaver, D. Macey, S.Evans, A. Chapman, L.Jones ac E.Stephens:

"Bu'r achlysuron mewn pyllau padlo a drefnwyd gan grwpiau gwirfoddol dros yr haf yn boblogaidd iawn gyda phlant a'u rhieni. O ganlyniad i hyn, mae'r Cyngor yma'n ymrwymo i neilltuo cyllid er mwyn cynorthwyo â'r gost o gyflogi achubwyr bywyd am 6 wythnos haf nesaf fel bod modd i bob pwll, yn ddieithriad, aros ar agor ar hyd gwyliau'r ysgol.

Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i adroddiad Swyddog gael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Cabinet ar y materion sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn."

Cyhoeddodd y Cadeirydd fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol 10.4.1 Gweithdrefn y Cyngor yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol: Sue Pickering, Wendy Treeby, G Hughes, G Caple, L. M. Adams, D. R. Bevan, J. Bonetto, H Boggis, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De-Vet, J Elliott, S.Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Powell, S Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, R K Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis ac R. Yeo:

"Bu'r achlysuron mewn pyllau padlo a drefnwyd gan grwpiau gwirfoddol dros yr haf yn boblogaidd iawn gyda phlant a'u rhieni. O ganlyniad, bydd y Cyngor hwn yn parhau i weithio gyda grwpiau cymunedol i ddarparu pecyn cymorth i aros ar agor yn ystod cyfnod gwyliau'r ysgol, sy'n adlewyrchu'r trafodaethau parhaus sy'n mynd rhagddynt.

Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i adroddiad Swyddog gael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Cabinet ar y materion sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn. Dylai'r adroddiad hwn adlewyrchu sut y mae modd i'r Cyngor gefnogi amgylchiadau unigol cyfleusterau penodol a pharodwydd grwpiau cymunedol."

Yn dilyn trafodaeth ar y mater yma, cymerwyd y bleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** mabwysiadu'r newid, gan ddiwygio'r cynnig uchod. **PENDERFYNODD** yr Aelodau fabwysiadu'r cynnig.

78 NEWID AELODAETH

Yn unol â'r penderfyniad a gafodd ei wneud yng Nghofnod Rhif 13(1) o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mai 2019, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu ei fod wedi derbyn hysbysiad gan y Grŵp Plaid Cymru o newidiadau i'w aelodaeth ar y Pwyllgorau canlynol: Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau Gweithwyr / Apeliadau Prif Swyddogion y Cyngor a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Yn unol â Chofnod 13 (2) roedd hefyd angen diwygio aelodaeth Grŵp Plaid Cymru o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y cyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yn dilyn y newidiadau uchod, gyda'r aelodau'n cael eu henwebu o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi bod Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Davies i'w enwebu i gymryd lle Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol D Macey ar Bwyllgor Apeliadau / Apeliadau Gweithwyr / Apeliadau Prif Swyddogion y Cyngor;
2. Nodi bod Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Cox yn cael ei enwebu yn lle Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol D Macey ar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.
3. Nodi y bydd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Cox hefyd yn bwrw ymlaen â chynrychiolaeth grŵp Plaid Cymru ar Gyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm

**Cllr S Powderhill
Cadeirydd.**